PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 40 | Hydref 2, 2025 | 50c.

# Comisiynu Elinor



Yn ystod yr oedfa Gomisiynu deimladwy ac urddasol a gynhaliwyd yng nghapel y Priordy fe gyflwynodd Elinor Wyn Reynolds ei thystiolaeth bersonol cyn cael ei neilltuo yn swyddogol i'w chyfrifoldebau fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Meddai,

> 'Rwy'n gwybod i mi gael fy ngharu'n gyflawn a diamod gan Dduw a chan ei fab Iesu Grist. Credaf mai cariad yw Duw ac mai ni yw cyfryngau'r cariad hwnnw yn y byd. Y mae'r cariad hwnnw'n rhan o fy mywyd bob dydd, bydd hefyd yn rhan o fy ngwaith gyda'r Undeb beunydd. Credaf yng ngweinidogaeth yr holl saint, ac mai *ni* yw'r saint. Addunedaf i gydgerdded â'n heglwysi, i'w cynnal, eu hannog a'u grymuso yn ôl ein traddodiad cynulleidfaol ni. Trwy ras Duw ymdrechaf i gyflawni fy ngwaith dros yr Undeb a theyrnas Crist hyd eithaf fy ngallu.'

Roedd y gair hwn o dystiolaeth yn crisialu ei ffydd a'i hymrwymiad i'r gwaith y mae wedi ymgymryd ag ef. Wrth wrando arni roeddem yn sylweddoli ein bod ym mhresenoldeb un oedd â ffydd a gweledigaeth greadigol i'r dyfodol ond bod y rheini gyda sylfaen gadarn yr Arglwydd Iesu.

Llywyddwyd y cyfarfod yn raenus gan y Parchg Owain Llŷr. Wrth groesawu'r gynulleidfa a'r rhai oedd yn gwylio ar y ffrwd byw fe nododd fod y Parchg Ddr. Geraint Tudur wedi methu mynychu'r cyfarfod oherwydd anhwylder i'w gefn. Anfonodd ei ymddiheuriad a'i ddymuniadau da.

Yr emyn cyntaf oedd cyfieithiad J. Vernon Lewis o emyn dyrchafol, Joachim Neander, sef 'Mawl fo i'r Arglwydd, sy'n Frenin gogoniant a mawredd.' Yn dilyn hynny fe gafwyd dau ddarlleniad o Efengyl Mathew gan Janet Lewis, pennod 10 adnodau 1-7 a phennod 15 adnodau 21-28. Offrymwyd gweddi feddylgar a pherthnasol gan y Parchg Dewi Myrddin Hughes cyn canu emyn anfarwol William Rees, Gwilym Hiraethog sef 'Dyma gariad fel y moroedd.' Rhaid oedd ymgolli yng ngwefr y geiriau, 'a thrugaredd pur a heddwch yn cusanu euog fyd.' (Salm 85:10).

Cyflwynodd Alun Charles air cadarnhaol ar ran eglwys Y Priordy gan gyflwyno Elinor. Soniodd am ei haddasrwydd ar gyfer y gwaith y mae'n ymgymryd ag ef, ei chymeriad a'i doniau amryfal mewn cyfnod heriol a chyffrous. 'Gŵyr Elinor faint o'r gloch yw hi ar y byd crefyddol.' Yna, gwahoddwyd Elinor, i gyflwyno ei thystiolaeth gan Owain Llŷr a gwnaeth hynny'n feddylgar. Yn sgil hynny offrymwyd yr urdd weddi gan y Parchg Beti Wyn James. Cydganwyd yn addolgar emyn S. J. Stone, 1839-1900 a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan J. A. Jackson, 1845-75, 'Un sylfaen fawr yr Eglwys yr Arglwydd Iesu yw.'

Testun pregeth eneiniedig y Parchg Dyfrig Rees oedd Mathew 15: 21-28 ble mae hanes ffydd y Gananees. Gellir gwylio'r bregeth a'r oedfa ar sianel Youtube Undeb yr Annibynwyr.

Yr emyn i gloi'r oedfa oedd emyn arobryn J. D. Vernon Lewis, 1879-1970, 'Saif ein gobaith yn yr Iesu.' Sy'n cloi gyda'r geiriau:

'Arglwydd, aros ar yr adwy
gyda'th weision, er pob braw,
i gyhoeddi anchwiliadwy
olud Crist i'r oesoedd ddaw;
clyw ein cri, gwneler ni
fyth yn dystion gwir i ti.'

### Diolch gyda chalon lawn


Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb a ddaeth ynghyd i'r gwasanaeth comisiwn yn y Priordy, Caerfyrddin ar nos Fercher 24 Medi i ddymuno'n dda i mi ar gychwyn fy nghyfnod fel Ysgrifennydd Cyffredinol. Roedd hi'n noson ddyrchafol a llawen, roeddwn i'n llawn deimlo'r fraint neithiwr.

Diolch mawr i bawb a gymerodd ran a'i wneud yn ddigwyddiad i'w gofio, ac i Owain Llŷr am lywyddu mor ddeheuig. Diolch hefyd i bawb fu'n gwylio ar y ffrwd fyw, roedd eich presenoldeb rhithiol yn bwysig.

I aralleirio geiriau Alun Charles, cyn-ysgrifennydd eglwys y Priordy ar y noson, rydyn ni gyd yn gwybod faint o'r gloch yw hi arnom heddiw yng Nghymru, gadewch i ni fwrw iddi gyda'n gilydd i ddangos mai cariad yw Duw ac mai *ni* yw cyfryngau'r cariad hwnnw yn y byd.

**Elinor Wyn Reynolds**








# Dau fyfyrdod gan Elwyn

### *Dechrau Canu Dechrau Canmol*

Pan oedd y Parchg R. O. G. Williams (ROGW) yn cyflwyno *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* nid anghofiodd y profiad hwnnw gafodd ar noson o haf yng nghapel mawr Tal-y-sarn. Rihyrsal oedd hi a chofiodd yn glir ei bod yn noson niwlog iawn a'r capel oherwydd y caddug yn gymharol dywyll. Ond y noson ganlynol roedd hi'n noson oedd a hin fwy arferol, yr awyr yn glir a'r haul min nos yn danbaid olau. Dechreuwyd ar y recordiad terfynol o'r rhaglen yn ardderchog o hwylus. Ond yn sydyn pan oeddent hanner ffordd trwy'r gwasanaeth dyma roi stop yn gwbl ddirybudd ar y cyfan.



Dyma ROGW yn dechrau petruso gan feddwl ei fod wedi cam–gyflwyno eitem neu wedi gwneud camgymeriad. Aeth draw i siarad gyda Peter y dyn camera, oedd agosaf ato. Sicrhaodd yntau nad arno ef oedd y bai y daethai'r cwbl i stop. Eglurodd gan ddweud, 'Ydych chi'n cofio pa mor llwydaidd a niwlog oedd hi neithiwr? Mae heno'n gwbl wahanol ac mae'r haul yn wirioneddol gryf. Ac ar y funud mae o'n tywynnu'n llachar trwy waelodion y ffenestri gan daflu cysgodion trwm dros y gynulleidfa, cysgodion nad oeddynt yma neithiwr. Felly does dim fedrwn ei wneud ond aros i'r haul fachlud.'

Ond dyma ROGW yn dechrau holi a gofyn 'Beth am lampau cryfion y BBC? Oes modd i rheiny setlo'r broblem?' A dyma'r ateb a gafwyd yn yr iaith wreiddiol. 'I am afraid that the Almighty has more power than the BBC.'

### Newid aelwyd

Yn niwedd ei oes fe benderfynodd Robert ap Gwilym Ddu newid aelwyd o'r Betws Fawr i Mynachdy Bach rhai milltiroedd i ffwrdd. Ar fore'r symud roedd buarth fferm y Betws yn fwrlwm i gyd. Ers y bore bach roedd cymdogion wedi bod yn hel ac yn helpu mudo. Roedd y wagen fawr yn llawn i'r ymylon a'r troliau'n llwythog gan ddodrefn a chelfi. Rodd y ceffylau yn dechrau gwingo ac anesmwytho a'r gweision yn barod i fynd. *Ond* ble roedd y meistr?

'Mhen dipyn dyma fardd y Betws yn dod allan o'r ffermdy gwag dan gludo crochan gydag ychydig o fwg yn tasgu allan ohoni. Trodd Robert at ei gymdogion a dweud fel hyn. 'Trwy'r blynyddoedd rydw i wedi byw ym Metws Fawr, nid yw'r tân ar yr aelwyd erioed wedi cael ei ddiffodd. A chaiff o ddim diffodd heddiw chwaith. Yn y crochan mae gen i bedair mawnen yn mudlosgi, ac erbyn heno bydd tân y Betws yn dal i losgi ar aelwyd y Mynachdy Bach.'

Tybed nawr, a dim ond gofyn ydw i? Ai ar aelwyd debyg y maged y Parch J. T. Job yntau?

> Dyro fwynder ar yr aelwyd,
> purdeb a ffyddlondeb llawn,
> adfer yno'r sanctaidd allor
> a fu'n llosgi'n ddisglair iawn:
> *na ddiffodded*
> *arni byth mo'r dwyfol dân.*

**Elwyn**


Gweithiwr Cymuned a Ieuenctid



**Capel y Tabernacl, Efail Isaf**

Mae Efail Isaf yn ardal Pontypridd, gyda Capel y Tabernacl yn rhan allweddol o fywyd y gymuned. Rydym yn chwilio am berson/bersonau egniol a brwdfrydig i ddatblygu'n gwaith gyda'r ifanc, teuluoedd a chyda'r gymuned ehangach.

**Am fanylion, ebostiwch carolinerees2@hotmail.com neu ewch i wefan swyddi www.lleol.cymru**


**CYFUNDEB DE-DDWYRAIN CYMRU**

*CYFLEOEDD Y GYMUNED GRISTNOGOL MEWN CENHADU*



*Anerchiad Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Y Parchedig Owain Llŷr Evans*

**Am 7.30 Nos Fercher 8 Hydref 2025**

CAPEL MINNY STREET CAERDYDD CF24 4ER

# Ceredigion

## Capel Pantycrugiau, Plwmp

Newyddion da i godi calon – urddo diaconiaid.

Yn y llun o'r chwith i'r dde, fe welir, y gweinidog sef y Parchg Carys Ann a'r diaconiaid newydd sydd wedi eu hethol i wasanaethu eglwys Iesu Grist yng Nghapel Pantycrugiau. Enwau'r cyfryw rai yw Alan Rees, Bethan Rees, Elin Owens ac Eirian Evans. Dymunwn bob bendith, rhwyddineb ac arweiniad yr Ysbryd Glân wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol.

**Carys Ann**



Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 2 2025 RHIF 240

# Eglwysi ledled Cymru'n ymgynnull y tu allan i Senedd Cymru #GweddïoAmHeddwch yn y Dwyrain Canol




Dydd Mercher, 24 Medi 2025, daeth arweinwyr eglwysi, aelodau eglwysi a cynrychiolwyr o fudiadau dyngarol Cymorth Cristnogol, Embrace the Middle East a CAFOD yng Nghymru ynghyd y tu allan i Senedd Cymru mewn ymateb i'r argyfwng sy'n gwaethygu yn Gaza a'r Llain Orllewinol.

Ymhlith y rhai a gymerodd ran mewn cyfnod o weddi gyhoeddus y tu allan i'r Senedd yr oedd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru; Y Parchedicaf Cherry Vann, Archesgob Cymru; Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn; Elinor Wyn Reynolds, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Y Parchedig Andrew Charlesworth, cyd-Gadeirydd Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd; yr Hybarch Mones Farah, Esgobaeth Tyddewi; a Katie Lewis, Embrace the Middle East. Ar ôl y cyfnod o weddi, bu'r rhai oedd wedi ymgynnull yn cydsefyll mewn distawrwydd gan ddal Llinell Goch dros Gaza, a gwelwyd nifer o Aelodau Senedd Cymru yn ymuno hefyd.

Dywedodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: 'Rydym yn dystion i'r trais dinistriol sy'n gwaethygu yn Gaza a'r Llain Orllewinol ac mae lleisiau arweinwyr eglwysig Palestina dros undod a therfyn ar y gwrthdaro yn atseinio ar draws yr eglwysi'n fyd-eang, gan ein hannog i ymateb yn glir a chadarn a gyda thosturi.

'Credwn fod tystiolaeth Gristnogol weladwy ac unedig yn y foment hynod ddifrifol hon yn angenrheidiol – tystiolaeth sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad cytûn dros heddwch, cymod, ac urddas i holl bobl Dduw.

'Rydym yn gobeithio y bydd cynifer o eglwysi â phosibl ledled Cymru yn parhau i ymuno mewn gweddi a gweithred. Drwy sefyll gyda'n gilydd mewn undod â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan drais ac anghyfiawnder, credwn y gallwn atgyfnerthu'r alwad am gadoediad parhaol ac uniongyrchol, rhyddhau'r gwystlon, mynediad llawn i gymorth dyngarol, ac am broses heddwch gyfiawn ac ystyrlon.'

Roedd y digwyddiad tu allan i'r Senedd yn dilyn Diwrnod Heddwch y Byd y Cenhedloedd Unedig (dydd Sul, 21 Medi) a'r alwad fyd-eang i weddi gan Gyngor Eglwysi'r Byd, yn galw ar eglwysi i weddïo ac i gydsefyll mewn tystiolaeth gyhoeddus o undod â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y trais yn y Dwyrain Canol, gan gynnwys Cristnogion Palesteina. Trefnwyd y digwyddiadau hyn mewn cydweithrediad agos rhwng asiantaethau Cristnogol Prydeinig, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, CAFOD, Tearfund, Embrace the Middle East, Amos Trust, Sabeel-Kairos, y Crynwyr ym Mhrydain, All We Can, Reconciling Leaders Network, Difference, Friends of the Holy Land, USPG, a'r Centre for Missionaries from the Majority World.

Ymhlith yr enwadau a'r rhwydweithiau eglwysig a ymunodd â'r alwad i weddi a thystiolaeth gyhoeddus yng Nghymru yr oedd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yr Eglwys yng Nghymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb Bedyddwyr Cymru, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd, a Synod Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Mae Cymorth Cristnogol Cymru yn galw ar eglwysi lleol ledled Cymru i lunio Llinell Goch dros Gaza, gan fynegi ein hundod â'n cymdogion yn Gaza a galw am weithredu mwy pendant. Ynghyd â'r alwad i weddi a gweithred y Llinell Goch, mae gan Gymorth Cristnogol amrywiaeth o adnoddau i helpu eglwysi i ymuno â'r alwad am heddwch cyfiawn. Mae'r rhain yn cynnwys tri ffilm sy'n cynnwys lleisiau o Balesteina dan feddiant, ynghyd ag adnoddau i eglwysi yn Gymraeg a Saesneg, sydd ar gael drwy ymgyrch Heddwch Cyfiawn.

Anogodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yr eglwysi i archwilio'r adnoddau Heddwch Cyfiawn newydd : 'Eleni yng Nghymru rydym yn nodi 100 mlynedd ers i'r eglwysi uno yn Apêl Heddwch Arweinwyr Eglwysi Cymru 1925 i America. Roedd yn ddatganiad dewr a chadarn yn erbyn gwrthdaro, gan danlinellu'r alwad Feiblaidd, wedi'i seilio ar ddysgeidiaeth Crist, sy'n galw ar ei ddilynwyr i fod yn wneuthurwyr heddwch unedig.

'Mae'r alwad hon i weddi a thystiolaeth, ynghyd ag adnoddau newydd Heddwch Cyfiawn Cymorth Cristnogol yn gyfle i ni gael ein harwain gan y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ryfel a thrais yn y Dwyrain Canol heddiw. Gadewch i ni fyfyrio ar ein hymateb yn 2025 i alwad Crist sy'n ein galw i undod, cyfiawnder, tosturi ac i heddwch, gan wreiddio hynny fwyfwy yng nghymunedau ac eglwysi Cymru.'

# 100.CYMRU

Hyderwn fod Duw yn eich cadw a'ch bendithio wrth i ni gamu i dymor yr hydref. Wrth weld y tymhorau'n newid o un i'r llall cawn ein hatgoffa fod ein Duw ni yn ddigyfnewid ac yn Arglwydd dros bopeth! Rhywbeth arall sy'n newid yn wastadol yw amser, a blynyddoedd yn pasio ar garlam.

I ba genhedlaeth ydych chi'n perthyn? Ydych chi'n Boomer? Yn Millenial? Yn ôl pob sôn, mae gan bob un o'r cenedlaethau hyn ei nodweddion ei hun, pethau maen nhw'n eu hoffi/ddim yn eu hoffi, ac arferion sy'n deillio o bob math o lefydd gwahanol.

Yr enw ar genhedlaeth pobl ifanc heddiw yw Gen-Z. Beth sy'n eu nodweddu nhw? Tyfon nhw i fyny gyda'r rhyngrwyd a *smartphones*, yn gyfan gwbl ddigidol ac wedi arfer ag effeithlonrwydd llwyr. Mae'r genhedlaeth hon hefyd yn adnabyddus am ei safbwyntiau amrywiol, ei hymwybyddiaeth gynyddol o newid hinsawdd a phroblemau iechyd meddwl, ac â dull unigryw o weithio a darganfod gwybodaeth. Maen nhw'n unigryw, a'n gweddi ni yw ar i Dduw weithio mewn ffordd unigryw yn eu plith er ei ogoniant!

Rydym ni'n trefnu Noson Weddi Gen-Z yn y Bala ar 3 Hydref!

Wrth i ni glywed straeon am yr hyn y mae Duw yn ei wneud yng Nghymru, un peth yr ydym yn gynyddol argyhoeddedig ohono yw ei fod wrthi'n ennyn newyn ysbrydol ymhlith y genhedlaeth nesaf. Yr hydref diwethaf, cynhaliwyd diwrnod o addysgu, addoliad a gweddi i rai dan 25 oed, ac roedd yn hyfryd gweld y bobl ifanc a'r oedolion ifanc hyn yn gweld cymaint o angen Duw sydd ar ein cenedl.

Ein gobaith yw y bydd Noson Weddi'r Bala yn ffordd o gasglu dwsinau o bobl ifanc ar gyfer noson o eiriolaeth a chomisiwn.




Ein gweddi yw y bydd yn noson a fydd yn rhoi baich dros Gymru ar galonnau nifer o'r bobl ifanc a fydd yn bresennol.

Bydd y noson ddwyieithog hon wedi'i llunio a'i harwain gan yr ifanc, ond rydym yn awyddus iawn i gael arweinwyr hŷn dibynadwy yno i weinidogaethu i'r bobl ifanc hyn ac i ymuno â nhw.

**Byddem wrth ein bodd pe byddech yn ystyried:**

**1. gwahodd pobl dan 25 oed rydych chi'n eu hadnabod i ymuno â ni**

**2. dod â grŵp o bobl Gen-Zer o'ch eglwys/grŵp ieuenctid neu'ch ardal i'r digwyddiad.**

Byddem yn ddiolchgar iawn os gallech ledaenu'r gair ac yn enwedig petaech yn gallu dod â phobl ifanc i ymuno â ni.

Mae'r holl wybodaeth ar gael o ddilyn y ddolen isod, ynghyd â ffordd i archebu tocynnau. Mae'n ddigwyddiad rhad ac am ddim, ond mae opsiwn i dalu am wely a brecwast yng Ngholeg y Bala. Dilynwch y ddolen am fwy o fanylion

Hyderwn y bydd Duw yn defnyddio'r digwyddiad yma i herio, ysbrydoli a chyffroi'r genhedlaeth yma er ei ogoniant.

Gyda chariad,
Tîm 100 i Gymru

## Sul Diogelu

**Beth am gynnal Gwasanaeth Sul Diogelu eleni?**

Mae Sul Diogelu ar 16 TACHWEDD 2025. Neilltuwch eich gwasanaeth i gyd neu ran ohono i ddiogelu, neu dewiswch dyddiad arall!

Mae **SUL DIOGELU** yn ffordd wych o ddangos bod diogelu yn rhan o'n ffydd mewn Duw cyfiawn a chariadus, codi ymwybyddiaeth o ddiogelu a galluogi eglwysi i rannu rhywfaint o'r gwaith da y maent yn ei wneud i ofalu am bobl a'u hamddiffyn.

Hon fydd y bedwaredd flwyddyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Panel Diogelu Cydenwadol annog eglwysi i gynnwys Sul Diogelu yn eu calendr eglwysig blynyddol.

Mae Sul Diogelu yn fenter a gychwynnwyd gan Thirtyone:eight, elusen ddiogelu Gristnogol sy'n gweithio ac yn ysbrydoli eraill i 'siarad ar ran y bobl sydd heb lais', fel y dywedir yn Llyfr y Diarhebion 31:8, ffynhonnell eu henw.

Yn 2022 a 2023 cynhyrchodd y Panel wasanaeth dwyieithog a ffilm pwrpasol ei hun. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydym yn falch iawn bod Thirtyone:eight wedi cynhyrchu mwy o adnoddau Cymraeg.




Y llynedd ledled y Deyrnas Unedig, cymerodd dros bum mil o eglwysi ran yn y Sul Diogelu. Eleni, gyda'ch help chi, gallwn helpu i godi ymwybyddiaeth a gwneud ein heglwysi yn lleoedd mwy diogel i bawb.

I gymryd rhan, gallwch gofrestru am ddim – https://safeguardingsunday.org. Byddwch yn derbyn canllaw ac adnoddau ar-lein i'ch helpu chi cynnal gwasanaeth cyfan, neu ran o wasanaeth, yn hawdd. Mae'n cynnwys gweddïau, nodiadau pregeth, syniadau am weithgareddau, adnoddau plant a mwy.

**Am ragor o wybodaeth? Darllenwch y cwestiynau cyffredin (Saesneg) yma**

**Neu ewch i wefan y Panel Diogelu Cydenwadol: https://panel.cymru/cy/sul-diogelu**

# Credo Nicea – Sesiwn Chwech – Gobaith yr Atgyfodiad (rhan 1)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## Prydain ac Iwerddon

**Sesiwn Chwech – Gobaith yr Atgyfodiad**

Ysgrifennwyd gan y Gwir Barchg Lusa Nsenga-Ngoy, Esgob Willesden

Esgob Willesden yw Lusa ac mae'n gwasanaethu un o'r ardaloedd mwyaf amrywiol o ran diwylliant ac ethnigrwydd yn Esgobaeth Llundain. Fe'i ganwyd yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo ac fe'i magwyd yng ngwlad Belg. Mae ganddo ddiddordeb mewn adrodd storïau ac ymroddiad i faterion cyfiawnder.

**Esgobaeth Llundain ac Eglwys Loegr**

Mae'r gymdeithas ym Mhrydain yn un ddiwylliannol gyfoethog a nodweddir gan bliwraliaeth grefyddol. Nid yw dyfnder ac ehangder yr amrywiaeth ethnig a diwylliannol hwn wedi ei wasgaru a'i gynrychioli'n gyfartal ar draws bywyd, strwythurau ac arweinyddiaeth yr eglwys. Ers deugain mlynedd, bron, cafwyd cyfres o adroddiadau gydag argymhellion parthed hyrwyddo cyfiawnder hiliol helaethach. Ymddengys mai dim ond yn awr yr ydym yn gweld ymdrech ymroddedig i wynebu a delio â'r anghyfiawnder hiliol sy'n plagio cenedl ac eglwys.

**Atgyfodiad – Gobaith**

… disgwyliwn am atgyfodiad y meirw, a bywyd y byd sydd i ddyfod.

**Darlleniad o'r Beibl – Datguddiad 7: 9–12**

9 Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo.
10 Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel:

> "I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen y perthyn y waredigaeth!"

11 Yr oedd yr holl angylion yn sefyll o amgylch yr orsedd a'r henuriaid a'r pedwar creadur byw, a syrthiasant ar eu hwynebau gerbron yr orsedd ac addoli Duw
12 gan ddweud:

> "Amen. I'n Duw ni y bo'r mawl
> a'r gogoniant a'r doethineb a'r diolch
> a'r anrhydedd a'r gallu a'r nerth
> byth bythoedd! Amen."

**Myfyrdod**

Yng ngwanwyn 2017, achosodd hysbysfwrdd yn Pittsburgh, yr Unol Daleithiau, ddadl gyhoeddus fawr, gyda nifer o bobl yn gwrthwynebu ei neges: "Mae 'na bobl Dduon yn y dyfodol." Trwy'r gwaith celf cyhoeddus hwn, roedd yr arlunydd a'r awdur Affro-ddyfodol Alisha Wormsley yn dymuno dweud rhywbeth am y gorthrwm systematig a ddioddefodd cymunedau Duon ar draws amser a gofod, drwy ddatgan y bydd pobl Dduon yn bresennol yn y dyfodol, dyfodol lle y dychmygir, yn aml, nad ydynt yn bresennol ynddo.

Ar un olwg, datganiad ffeithiol syml yw hwn. Ac eto, mae'n ein gorfodi i enwi'n onest y rhwygiadau a'r rhaniadau yn sefyllfa bob dydd pawb ohonom, lle clywir storïau brawychus am fywydau sydd wedi dioddef gwahaniaethu a gorthrwm am fod eraill wedi tybio fod y bobl hyn o lai o werth nag eraill oherwydd eu hethnigrwydd, eu diwylliant, eu cred neu eu cast.

Y cwestiwn cyntaf a ofynnodd Duw i ddynolryw y tu allan i ardd Eden, yn ôl yr Ysgrythurau Hebreig, oedd "Ble mae dy frawd?" Os ydym mewn gwirionedd yn mynd i fyw o dan ddylanwad y cwestiwn hwn, awgrymir bod yma orchymyn i fod yn ddibynnol ar ein gilydd, i fod yn gyfrifol am les a ffyniant ein chwiorydd a'n brodyr yn Nuw. Gorchymyn ydyw yn erbyn ecsbloetio a darostwng 'yr eraill', a'u trin fel nwyddau yn unig. Nid holi am leoliad unrhyw un y mae'r cwestiwn hwn. Yn hytrach, gwahoddiad sydd yma i ad-drefnu ac ailgyfeirio ein bwriadau tuag at 'yr eraill'. Fe'n dygir gan y cwestiwn i fan lle mae'r 'eraill' nid yn unig yn rhai mae gennym gysylltiad â nhw, ond yn bobl a hawliwn fel ein pobl ni ac y cawn ninnau ein hawlio ganddynt fel eu pobl hwy. Mae'n golygu cael ein haflonyddu, a'n cymell i beidio â'u gweld fel nwyddau i'w cyfnewid ond yn hytrach fel personau i fod mewn perthynas â nhw ('*from transaction to relation*' yw'r term Saesneg). Bwriedir y cwestiwn, fel gyda hanes tŵr Babel, i ddargyfeirio ein stori ni a'i hailgyfeirio i gyfeiriad stori Duw.

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 5 Hydref - am 7.30**
***Cymuned y Garreg Las***
Ymweld â chartref Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026, gyda chanu mawl o Gapel y Bedyddwyr, Blaen-ffos

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 5 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau diolchgarwch yng nghwmni Mair Beech Williams

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 5 Hydref, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Heledd Job, Dulyn

# Colli gwraig amryddawn

Trist oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth Kathy Galloway o'r Alban. Roedd Kathy yn un o'r merched cyntaf i gael eu hordeinio gan Eglwys yr Alban a'r wraig gyntaf i'w hethol yn arweinydd cymuned Iona. Bu hi hefyd yn bennaeth Cymorth Cristnogol yn yr Alban rhwng 2009 a 2016. Roedd hi'n fardd, ffeminist, diwinydd, awdur ac yn flaengar ar faterion cyfiawnder cymdeithasol. Roedd hefyd yn gerddor medrus, a bu hi'n arwain gweithdai a sesiynau addoli ar draws y DU, nifer ohonynt yng Nghymru. Yn un o'r teyrngedau iddi cynhwyswyd bendith gyfoethog roedd hi wedi ei hysgrifennu, ac fe fentrais ei chyfieithu/addasu ar gyfer yr oedfa ar y Sul. Gobeithio gall fod o ddefnydd i ddarllenwyr y Tyst.

## Addasiad Cymraeg o weddi o gymuned Iona (Kathy Galloway)

Iesu ein brawd,
yr wyt wedi gosod ein traed ar y ffordd
ac weithiau, nid ydym ni yn hoffi nac yn deall
lle'r wyt ti'n ein harwain.

Bendithia ni a dewrder –
lle mae'r ffordd yn anodd a pheryglus;
Bendithia ni â chwmni cynnes -
lle mae'r ffordd yn unig;
Bendithia ni â chyd-deithwyr ffyddlon –
lle mae'r ffordd yn hawlio achos cyffredin;
Bendithia ni â'r gallu i weld y ffordd ymlaen –
wrth deithio drwy'r tywyllwch,
a phan na allwn weld yn glir –
bendithia ni â'r gallu i glywed synnau cysurlon
eraill ar y ffordd.

Bendithia ni â hiwmor –
ni allwn deithio'n rhwydd
wedi ein llwytho gan faich difrifoldeb;
Bendithia ni â gostyngeiddrwydd –
i ddysgu wrth y rhai sydd o'n cwmpas;
Bendithia ni â phenderfyniad –
pan fydd yn rhaid symud ar frys;
Bendithia ni ag amynedd –
i oedi ac ystyried cyn gweithredu:
Bendithia ni â chariad –
yn cael ei roi a'i dderbyn;

A bendithia ni ag arwyddion o'th
bresennoldeb –
pan fydd bywyd yn datgan dy fod yn absennol.

Gwna ni'n alltudion –
hyd nes i ni ddarganfod
dy fod ti ar y ffordd hefyd,
a lle'r wyt ti
yw'r ffordd adref.
Bendithia ni, arwain ni, cara ni
arwain ni adref
yn nerth efengyl y bywyd.

**Robin Samuel**

# Eglwys Gymunedol Tywi
## (Tywi Community Church)




Yn ein dehongliad ni o'r hyn a olyga Eglwys Iesu i'n cymunedau, tybed a fedrwn ni ddweud gydag Eglwys Tywi sydd â chanolfannau addoli yn y dre ac yn adeilad Xcel yn Nhre Ioan 'Cyrraedd pobol. Newid bywydau'.

Dyna yw'r hys-bys ynghyd â'r her a nodir ar gefn eu cerbydau! Mae ganddynt ganolfan fowlio, warws celfi ac offer trydanol ail-law ynghyd â banc bwyd prysur iawn yn Nhre Ioan. Mae hi'n eglwys o'r traddodiad ceidwadol yn ddiwinyddol, serch hynny, rhaid edmygu'r weledigaeth a'r weinidogaeth sy'n seiliedig ar air Duw. Yr un Efengyl sydd gennym – yr un Newyddion Da – a rydyn ni'n addoli ac yn ddisgyblion i'r un Duw yn Iesu. Wrth i ni ystyried natur ac ehangder gwasanaeth a gweinidogaeth yr eglwys Gristnogol yn y gymuned ym mhob oes, daw geiriau'r Iesu i'r cof:

*Yn wir, rwy'n dweud wrthych, yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch. (Mathew 25:40)*

Neu, yn ôl cyfieithiad Lyn Lewis Dafis yn nhafodiaith Sir Benfro:

*Dwi'n gweud i gwir wrthoch chi, os ffeiloch chi neud e i unryw un o'r dinion ishel, ffeiloch chi neud e i fi.*

(Allan o *Pigion Peniel*, Rhif 19: Medi 2025)

# Eiriol

*Llinellau i gyfarch a dymuno'n dda i Elinor Wyn wrth iddi gychwyn ar ei swydd newydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.*



Eiriolwn dros ein Elinor Wyn,
ar gychwyn ei gweinidogaeth weinyddol.
Gwyn ein byd, gyda'i doniau doeth a'i dysg,
bydd gofal ganddi am gapeli yn gwegian yn eu gwewyr,
Hi fydd ein tywysydd tyner yn ein hantur.

Rheidrwydd anorfod yw'r dasg o gau'r drysau,
datgorffori cyn dechrau'r ymgorffori a'r adnewyddu,
gyda diolchiadau diffuant a dwys
am y dyddiau dedwydd o ddiddanwch
i deuluoedd a'u gwreiddiau yn ddwfn yn y Ffydd a'r fro.
Ond erys atgofion amhrisiadwy ac annileadwy am yr hyn a fu.

Oes newydd yw hon heb lety i Iesu, heb grud na chred,
'nis gadawaf chwi'n amddifad' oedd ei addewid.

Rhown ninnau groeso i'w Lân Ysbryd gael teml ynom ni
ac iddo nythu yn y 'winllan wen a roed i'n gofal ni'.
Gwyliwn a gweddïwn am arall gyfeiriad
i'n gweithredoedd a'n gobeithion,
wrth ymateb ac ymroi i ufuddhau
i ofynion heriol ein Harglwydd yn ein hoes.

Ymbiliwn am dy gymorth cadarn ymhob cyfyngder a phryder.
Arglwydd, trugarha wrthym, clyw ein cri
am dy gwmni, dy gyngor a'th gymorth yn ein hoes ni
wrth i ni wynebu ansicrwydd y dyfodol.
Yn enw Iesu Grist. Amen.

**Gwilym Wyn**

Barn Annibynnol

# Gosod nod

Rwy'n cofio, flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, i mi ddilyn cwrs estynedig ar addysg a chanfod fod rhan ohono'n ymwneud ag arferion rheoli mewn diwydiant a busnes. Efallai nad oeddwn yn gwir sylweddoli'r berthynas rhwng addysg a diwydiant a busnes ar y pryd ond buan y deuthum i weld bod gwersi gan y naill sector a'r llall i'w dysgu oddi wrth ei gilydd, yn enwedig ym maes cynllunio a rheoli a gosod targedau ynghyd â phennu camau i fesur llwyddiant.

A dyma feddwl tybed a yw hynny'n wir am ddiwydiant a busnes a chrefydd?

### Map ffordd

Yn anffodus, mae'r syniad o osod targedau'n cael cyhoeddusrwydd gwael y dyddiau hyn, a hynny'n bennaf, o bosibl, oherwydd methiant llywodraeth, boed yng Nghymru neu San Steffan, i ddod yn agos at gyflawni'r rhai a osodwyd ganddynt, er enghraifft, targedau mewn perthynas â dileu tlodi plant ac amserau aros am driniaeth ysbyty. Boed hynny fel y bo, nid yw'n rheswm dros ddiystyru targedau o gwbl.

Mae cynllunio strategol, gosod nodau a thargedau'n chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu diwydiant neu fusnes neilltuol. Mae cynllunio fel hyn yn cynnig eglurder, yn gwella penderfyniadau a chymhelliant y tîm. Heb strategaethau clir a chadarn mae perygl i fusnesau wastraffu adnoddau a cholli momentwm a hyder.

Ar yr wyneb, mae cynllunio strategol a gosod targedau'n swnio fel ymarfer busnes heb unrhyw gyswllt â'r bywyd crefyddol. Y gwir yw, fodd bynnag, y gall y broses hon ddarparu'r cyfeiriad sydd ei angen ar eglwysi a chapeli hefyd. Mae'n gallu gwasanaethu fel map ffordd drwy gyfeirio eglwysi a chapeli ar eu taith i gyflawni'u cenhadaeth.

Mae eglwysi effeithiol yn gwybod bod eu gwaith ariannol a gweinyddol yn gorfod llwyddo. Mae angen i'r arweinwyr roi sylw i bolisïau fel rhai diogelu plant, polisïau yswiriant, y to, y system gwresogi, y maes parcio, y llyfrau ariannol ac ati. Wedi'r cyfan, os yw'r elfennau hyn yn cael eu rheoli'n wael, ni fydd yr eglwys yn llwyddo.

### Colli golwg

Mae'n wir dweud hefyd bod perygl i eglwysi a chapeli golli golwg ar eu cenhadaeth os mai dyna yw prif ganolbwynt yr arweinyddiaeth. Wrth reswm, mae'n hanfodol bwysig i arweinwyr yr eglwys gael y sgiliau gweinyddol ac ariannol hynny neu o leiaf recriwtio a chanfod gwirfoddolwyr sy'n gallu dod â'r sgiliau hynny i fywyd yr eglwys. Ar y llaw arall, rhaid gochel rhag colli golwg ar ei chenhadaeth.

Mae eglwysi'n llawn ystadegau – aelodau, rhoddwyr, dosbarthiadau ysgol Sul, angladdau, a phriodasau. Ond yn aml, maent yn amharod i fesur yr hyn sy'n bwysig rhag ofn, o bosib, y byddai mynegi eu cenhadaeth a'u gwasanaeth yn nhermau rhifau'n lleihau eu gwerth. Mae'n heriol mesur cenhadaeth eglwys. Mae busnesau fel arfer yn dda am fesur. Gallant ddysgu gwersi i ni.

### Gosod targed

Enghraifft ddiddorol o darged cenhadol un eglwys yw'r canlynol: cael o leiaf 50% o'r gynulleidfa yn cymryd rhan weithredol mewn o leiaf un weinidogaeth y tu allan i eiddo'r eglwys sy'n 'cwrdd â phobl, diwallu anghenion, cwrdd â Christ'. Dylai nodau fel hyn adlewyrchu pwrpas a gwerthoedd eich eglwys. Dylent hefyd fod yn realistig, yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn amserol bob amser.




### Tair elfen

Un sydd wedi ymddiddori yn y maes hwn yw John Truscott, cyn-ymgynghorydd eglwysig. Mae'n ffafrio meddwl yn nhermau tair lefel o fanylder. Yn gyntaf, mae angen gweledigaeth gan Dduw – syniad mawreddog o bwynt yn y dyfodol y mae pobl yn gweddïo'n frwd drosto. Yn ail, ychydig o amcanion eang oddi mewn i'r weledigaeth honno. Yn drydydd, camau penodol i'n cyrchu tuag at bob amcan ac felly ymlaen at y weledigaeth.

I dreiddio i weledigaeth Duw ar ein cyfer, mae'n hanfodol ymroi i weddi, myfyrdod ac astudiaeth o'r Beibl. Y weledigaeth gan Dduw sy'n greiddiol – y grym sy'n dyfeisio ac sy'n helpu i greu'r dyfodol.

### Dim nod

Onid yw'n syndod nad oes mwy ohonom yn ein capeli yn troi ein calonnau a'n meddyliau at geisio, hyd eithaf ein gallu, ddoethineb Duw mewn ysbryd o weddi ac onestrwydd i'n helpu i greu'r dyfodol? Onid yw'n syndod nad ydym yn clywed mwy am eglwysi mewn pentrefi a threfi ar draws yr enwadau, yn un sŵn ac un llais, yn mabwysiadu strategaethau a thargedau dros amser i ddiogelu a datblygu'r genhadaeth Gristnogol Gymraeg i'r dyfodol? Mae hynny'n rhyfeddol o ystyried fel y mae cynulleidfaoedd yn edwino, y cysyniad o enwadaeth yn pallu a'r baich o gynnal cymaint o adeiladau diangen ar gynnydd. Meddyliwch am yr heriau pan fo'n capeli yn ein pentrefi a threfi'n gweithredu ar wahân i'w gilydd yn hytrach nag yn gytûn. Gall y rhaniad rwystro cenhadaeth gyffredinol y Ffydd a'i heffaith ar y gymuned.



### Taro'r nod

Diolch i ddiwydiant a busnes am batrymau i'w dilyn wrth bennu strategaethau a thargedau a dulliau o fesur llwyddiant – ond nid stryd unffordd mo hon. Ers cyfnod Covid datblygodd llawer o eglwysi a chapeli ddulliau amrywiol o ffrydio gwasanaethau a rhai gweithgareddau eraill. Mae llawer ohonynt hefyd wedi parhau i wneud hynny ers diwedd y cyfnod clo. Mae eglwysi yn deall rhywbeth y mae llawer o ddiwydiannau a busnesau yn ei golli. Dyw eglwysi ddim yn ffrydio i greu argraff na pherfformio. Yn hytrach maent yn defnyddio technoleg ac yn ffrydio er mwyn gwahodd, cadw cyswllt a gofalu. Nid mater o ddosbarthu'n unig yw ffrydio byw. Mae'n ymwneud â chymryd rhan mewn ffordd ystyrlon. Mae eglwysi wedi bod yn dangos i ni sut i wneud hynny. Dyma agwedd y gall diwydiannau a meysydd eraill ddysgu gan yr eglwys – a gosod targed i'w chyflawni o bosib!

**R. Alun Charles**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Eglwysi Alltwen a Soar Maesyrhaf

Gwahoddir chwi gan yr Eglwysi uchod i ddathlu 60 mlynedd ordeinio y Parchg Gareth Morgan Jones i'r weinidogaeth.

Pregethir gan y Parchg Owain Llŷr Evans, Llywydd yr Undeb

Dydd Sul 12 Hydref yn yr Alltwen am 2.30pm.

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Bedydd trochiad yn Saron, Creunant

Yn ddiweddar cafwyd Sul i'w gofio am amser maith yn Saron, Creunant, wrth i ddeg o unigolion gael eu bedyddio fel arwydd o'u ffydd a'u hymrwymiad i'r Arglwydd Iesu. Roedd yr awyrgylch yn llawn llawenydd, emosiwn a dagrau, ac ymdeimlad clir o bresenoldeb Duw yn ein plith.

Y rhai a fedyddiwyd oedd: Alys, Tyler, Hector, Jamie, Kayleigh, Summer, Jazmine, Brook, James, a Cari. Roedd yn fendith arbennig gweld teuluoedd cyfan yn cymryd y cam hwn gyda'i gilydd, gan dystiolaethu i wirionedd yr Efengyl a nerth gras Duw i drawsnewid bywydau.





Dywedodd sawl un ar ôl y gwasanaeth ei bod yn oedfa hynod emosiynol a phwerus, gyda phawb yn rhannu yn y llawenydd o weld bywydau'n cael eu hadnewyddu yn Iesu Grist. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb, a pharhawn i weddïo dros y rhai a fedyddiwyd, gan gredu y bydd Ef yn eu harwain a'u cadw yn y ffordd newydd o fywyd.

**Rhys Locke**

# Bedyddio

Roedd yr oedfa yng Nghapel Cana, Bancyfelin, Sir Gâr yn un cofiadwy iawn. Bedyddiwyd chwech o blant yr eglwys gan ein gweinidog, y Parchg Beti-Wyn James. Mae teulu Cana yn un clòs a chynnes a llawenydd mawr oedd cynnal yr oedfa fedydd hon, gan bod y chwe phlentyn yn aelodau ffyddlon yn yr ysgol Sul, a'r rhieni yn rhan o gymdeithas yr eglwys.


Dymunwn fendith Duw arnynt a diolchwn am brynhawn llawen a chofiadwy.



# Penrhys

Mae *Penrhys – A Village on a Hill* yn cofnodi sut rhoddodd Duw hwb i greu Llanfair, cymuned eglwysig a ddaeth i fodolaeth yn 1992. Wrth ymdrechu i ddod yn bentref, dangosodd Llanfair Penrhys weledigaeth, dewrder a dyfalbarhad. Amlygodd werthoedd craidd a fu'n fodd iddi ddod yn galon i'w chymuned.

Ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn eich siopau llyfrau lleol.




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*